
# DARGANFOD SIR DDINBYCH ar lwybrau



Llwybrau.
Wales, by Trails.

#Llwybrau



gogledddcymru_northeastwales

NthEastWales

@NthEastWales

North East Wales

twristiaeth@sirddinbych.gov.uk

www.gogleddddwyraincymru.cymru

**Canolfannau Croeso**

Pentref y Plant, Rhodfa'r Gorllewin,
Y Rhyl LL18 1HZ
01745 355068

Y Capel, Heol y Castell,
Llangollen LL20 8NU
01978 860828


Cyhoeddwyd yn 2023 gan Dîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych

**Ffotograffiaeth:** The Wales Collective/The Forge Corwen, White Fox, Craig Colville, Croeso Cymru/ Visit Wales, @whittlings, Eastwood Media, Ioan Said, Pexels.
**Golygu a dylunio:** White Fox.
**Argraffu:** Lexon Group.


***Darlun y clawr*** *Bryniau Clwyd*
***Y dudalen hon*** *Caer Drewyn, Corwen*



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Gwych gyda'n gilydd | NORTH EAST WALES Altogether brilliant

# mentrwch ar lwybrau

Yng Nghymru, mae llwybrau hyfryd ym mhobman. Teithiau ar draws yr ardaloedd awyr agored neu'n plethu drwy hanes, iaith a diwylliant.

Nawr yw'r amser i ddathlu'r llwybrau hyn, o'r rhai sydd wedi'u troedio sawl tro i'r rhai newydd sbon, ac i agor y wlad i bawb ei mwynhau, drwy gydol y flwyddyn.

Mae Sir Ddinbych yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn llawn llwybrau eiconig gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr yr Arfordir. Ond nid llwybrau llythrennol yr ydym yn sôn amdanynt yn unig. Rydym yn sôn am lwybrau diwylliannol, teithiau bwyd, teithiau drwy amser ac ar draws ein hawyr dywyll.

Bydd digon o ysbrydoliaeth ar y tudalennau hyn. A chofiwch – nid oes unrhyw un yn mynd i unman cyffrous drwy aros yn llonydd. Mentrwch ar lwybrau.





Roedd yr holl wybodaeth yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi. Ond gall bethau newid. I osgoi siom, gwiriwch oriau agor a manylion eraill y lleoliadau i gyd cyn teithio yno.

WORLD LAND TRUST™
CARBON BALANCED PAPER
www.carbonbalancedpaper.com
CBP010502

Mae cylchgrawn Llwybrau Sir Ddinbych wedi'i argraffu ar Bapur Carbon Cytbwys. Drwy Ymddiriedolaeth World Land mae'r cyhoeddwyr wedi cydbwyso cyfwerth â 710kg o garbon deuocsid. Bydd y gefnogaeth yn galluogi'r ymddiriedolaeth i amddiffyn 136m² o goedwigoedd trofannol sydd dan fygythiad sylweddol.

# llwybrau cerdded

**Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan i gerddwyr. Dyma un o'r ffyrdd gorau o weld ein cefn gwlad eiconig a'r arfordir hyfryd a chael cyfle i ymlacio.**

Nid oes yn rhaid i chi fynd yn bell. Mae gennym sawl taith gerdded ar hyd promenâd a gellir crwydro glannau'r afonydd heb fod yn daith hir. Ond rydym yn cynnig ambell her sylweddol hefyd – llwybrau nad ydynt yn perthyn i Sir Ddinbych yn unig ond i'r genedl gyfan.

Yn gyntaf, mae Llwybr Arfordir Cymru. Yn 870 milltir o hyd dyma'r llwybr troed cyntaf i ddilyn arfordir gwlad gyfan. Does dim rhaid cerdded y cyfan, yn amlwg.

Fe allech chi gadw at ran Sir Ddinbych – saith milltir o draethau euraidd yn cysylltu'r Rhyl a Phrestatyn ynghyd â thwyni Gronant, cartref ehedyddion, llyffantod cefnfelyn prin a'r unig nythfa ar gyfer môr-wenoliaid bychain yng Nghymru.

Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ar y llaw arall, yn dilyn heneb hynafol hiraf Prydain ar daith 177 milltir o arfordir i arfordir, o Gas-gwent i Brestatyn. Mae'r rhan drawiadol a therfynol yn ein sir yn teithio drwy Safle Treftadaeth y Byd yn Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy cyn dringo bryniau porffor Bryniau Clwyd.

Os ydych wedi teithio'r llwybr cyfan, gallwch lofnodi llyfr arbennig yng Nghanolfan y Nova ar lan y môr ym Mhrestatyn. Ond mae coffi a chacen yn eu Caffi Cwt Traeth yn angenrheidiol, beth bynnag fo pellter eich taith.

**www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk**
**www.walescoastpath.gov.uk**




Canolfan Nova, Prestatyn

# Teithiau dydd

## Nid teithiau hir yw'r unig beth sydd ar gael yn Sir Ddinbych. Gellir cyflawni'r teithiau canlynol mewn diwrnod.

**Llwybr Dyffryn Dyfrdwy**

Llwybr cerdded eithaf heriol rhwng trefi Corwen a Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy, wedi'i rannu'n bump o rannau.

**Llwybr Gogledd y Berwyn**

Llwybr llinol 13 milltir yn dringo Mynyddoedd Gogledd y Berwyn ar gyfer cerddwyr profiadol gyda'r cyfarpar cywir.

**Llwybr Prestatyn i Ddyserth**

Llwybr tair milltir heb fawr o draffig yn dilyn yr hen reilffordd i fwynglawdd plwm Talargoch, coridor i fywyd gwyllt yn awr.

**Milltiroedd Cymunedol**

Cyfres o deithiau cerdded cylchol o amgylch pentrefi Sir Ddinbych, oll yn cymryd oddeutu awr i'w cerdded ac yn cynnwys cyfrif caloriau defnyddiol.

**Llwybrau hygyrch**

Mae nifer o'n teithiau cerdded yn addas i rai mewn cadeiriau olwyn neu bramiau gan gynnwys ar hyd y promenâd yn y Rhyl a Phrestatyn, y llwybr ar lan yr afon ym Mharc Gwledig Loggerheads, Llwybr Prestatyn-Dyserth a Llwybr Camlas Llangollen.

**Llwybrau Cysegredig**

Yn cysylltu lleoliadau arbennig fel Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ein heglwysi plwyf canoloesol a ffynhonnau sanctaidd hynafol i greu llwybr gydag elfen ysbrydol.



# llwybrau o safon byd

*Dyfrbont Pontcysyllte*

**Pyramidiau'r Aifft, Machu Picchu ym Mheriw, y Taj Mahal yn India. Oll wedi derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd oherwydd eu bod o "werth cyffredinol eithriadol". Ond maent oll ychydig yn bell ar gyfer gwyliau byr.**

Yn ffodus bu i bobl garedig UNESCO benderfynu bod 11 milltir o Gamlas Llangollen yn haeddu yr un statws. A does dim syndod. Mae camlas Thomas Telford yn torri drwy ardal fryniog gyda chyfres o draphontydd dŵr twneli, pontydd ac argloddiau, gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte ei hun.

Fwy na dwy ganrif yn ôl daeth artistiaid fel JMW Turner i baentio tirlun hyfryd Dyffryn Dyfrdwy. Mae'n parhau i ysbrydoli ymwelwyr heddiw, yn rhannol o ganlyniad i brosiect o'r enw Ein Tirlun Darluniadwy.

Rydym wedi comisiynu gwaith celf newydd, wedi ehangu golygfeydd ardaloedd fel Rhaeadr y Bedol, wedi ailosod camera obscura yng Nghastell Dinas Brân a dyfeisio cyfres o Lwybrau Cerdded Darluniadwy Cylchol – gan gynnwys un sy'n dilyn ôl-traed Merched Llangollen.

Mewn gwirionedd, mae modd cerdded, beicio a phadlo Safle Treftadaeth y Byd yn ei gyfanrwydd. Gallwch deithio yn unol â bwriad Telford, ar gwch ar y gamlas o Langollen. Neu gallwch fynd ar un o'r rheilffyrdd treftadaeth gyda'r golygfeydd mwyaf trawiadol – yr holl ffordd o Langollen i'r orsaf newydd yng Nghorwen yn 2023.



**www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk**
**www.llangollen-railway.co.uk**

## Harddwch eithriadol

Mae mwyafrif Safle Treftadaeth y Byd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE), ffin ucheldir dramatig Gogledd Cymru.

Mae'n gorchuddio 390 cilomedr sgwâr o gopaon gwyntog gyda chaerau o Oes yr Haearn, rhostir grugog, creigiau calchfaen a dyffrynnoedd coediog.

Nid rhywbeth i edrych arno o bell yw'r porth hanesyddol i Gymru. Mae'n cynnwys cyfoeth o gyrchfannau cyffrous i'w crwydro. Mae'r parciau gwledig anhygoel yn Loggerheads a Moel Famau yn fan cychwyn gwych i'ch taith.

**www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk**



Cwt Bugail, Moel Famau








# teithiau blasu

**Mae bwyd a diod o'r radd flaenaf ym mhobman yn Sir Ddinbych – hyd yn oed hanner ffordd i fyny mynydd. Mae'r cwt bugail sy'n cael ei bweru gan ynni'r haul ym maes parcio Bwlch Pen Barras yn lleoliad perffaith i gerddwyr sy'n mentro am gopa Moel Famau.**

Yn dibynnu ar y tywydd a'r tymor, mae cacennau a byrbrydau a wneir yn lleol ar gael yno ynghyd â choffi wedi'i rostio gan Owen ac Edwards yn Rhuthun – sydd i'w weld islaw yn Nyffryn Clwyd.

Mae gwneuthurwyr coffi yn rhan o Fwyd a Diod Bryniau Clwyd, grŵp o bobyddion, bragwyr, distyllwyr, cynhyrchwyr caws, gwenynwyr a Gwestai Gwely a Brecwast sy'n ceisio codi proffil bwyd lleol.

Felly mae arwyr bwyd ym mhobman. Lluniwch daith flasu eich hun drwy ymweld â'n siopau fferm a delicatessen, ein tafarndai gwledig clyd a bwytai. Ewch i ganfod ein cigyddion sydd wedi ennill gwobrau, ein gwneuthurwyr hufen iâ, a thyfwyr ffrwythau a llysiau ffres.

Dechreuwch eich taith yn Ystâd Rhug ger Corwen – fferm organig gyda gwasanaeth bwyd i fynd, caffi, cyfleuster bwyd drwy ffenestr y car a siop fferm yn llawn bwyd lleol. Neu ewch i gyfarfod ein masnachwyr moesegol, gwerthwyr bwyd stryd a gwneuthurwyr diodydd yn neuadd y farchnad yn Rhuthun.

Neu orau oll, dewch i un o'n gwyliau bwyd: Rhuddlan ym mis Mai neu Rhuthun ym mis Ebrill ac Awst – gyda Gŵyl Fwyd Llangollen a Gwledd Eirin Dinbych yn dathlu cyfoeth yr hydref ym mis Hydref.

**@ClwydianRangeFoodandDrink**



**Nid yn ystod y dydd yn unig y mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn hardd. Mae'r awyr dywyll sy'n frith o sêr llachar yn werth ei gweld yn ystod y nos. Felly mae'n leoliad perffaith i gyflawni'r daith orau erioed – ar draws bellteroedd enfawr y gofod.**

# llwybrau'r nos



Mae'r AHNE yn ceisio derbyn statws swyddogol gan Gymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll. Rydym yn addysgu pobl ynglŷn â sut i leihau llygredd golau ac yn cynnal amryw o ddigwyddiadau cyffrous; o syllu ar y sêr a sgyrsiau telesgop i deithiau cerdded i weld ystlumod, tylluanod a chreaduriaid eraill y nos.

Cadwch olwg am Wythnos Awyr Dywyll Cymru ym mis Chwefror fel uchafbwynt y calendr wybrennol. Ond gallwch archwilio rhyfeddodau'r bydysawd ar eich pen eich hun os ydych chi'n gwybod ble a phryd i edrych. Mis Medi i fis Mawrth yw prif "Dymor Awyr Dywyll" gyda'r cyfleoedd gorau i weld y Llwybr Llaethog, cytserau'r gaeaf fel Orion neu hyd yn oed cawod o sêr gwib.

Mae pedwar Safle Darganfod Awyr Dywyll ar agor dros nos, sy'n ddiogel a hygyrch: maes parcio Llangwyfan ger bryngaer Penycloddiau, maes parcio Moel Arthur ger Cilcain, maes parcio Bwlch Pen Barras ger Moel Famau a Maes Llandysilio ger Rhaeadr y Bedol, Llangollen. Arhoswch am noson glir – a mentrwch i'r tywyllwch i weld goleuni'r lloer a'r sêr.

**www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk**
**www.discoveryinthedark.wales**







## Rhestr wirio i syllu ar y sêr

Dillad cynnes: het, menig a nifer o haenau o ddillad

Fflachlamp gyda ffilter coch

Ffôn symudol gyda'r batri'n llawn – cofiwch ddweud wrth rywun ble rydych yn mynd a phryd y byddwch yn dychwelyd

Ysbienddrych

Esgidiau cryf


Fflasg gyda diod boeth

Blanced neu fat i orwedd arno

Map o'r sêr

Cadwch at y llwybrau

# teithiau diwylliannol



*Canolfan Grefft Rhuthun*
*(Neil Wilkin a Rachael Woodman)*







## Does dim rhaid mynd yn bell i fynd ar daith ddiwylliannol o amgylch Sir Ddinbych. Dim ond symud o un lle i'r llall. Fe fyddai hynny'n ddigon.

Mae diwylliant unigryw Cymru wedi'i ymgorffori yn ein ffordd o fyw. Mae bron pob pentref a thref yn cynnal gwyliau, ffeiriau gwledig neu eisteddfodau. Mae modd clywed y Gymraeg ym mhobman (a byddem wrth ein boddau yn eich clywed yn rhoi cynnig arni).

Os ydych chi eisiau profi profiadau fel hyn, ewch amdani. Dewch unrhyw bryd, ewch i unrhyw le. Fedrwch chi ddim methu.

Ar y llaw arall, ni fyddwch eisiau colli Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf, pan fydd Cymru'n croesawu dawnswyr a cherddorion o bob cwr o'r byd. Neu Theatr y Pafiliwn gyda 1,000 o seddi ar lan y môr yn y Rhyl gyda bwyty a bar 1891.



Ac mae ymweliad i Ganolfan Grefft Rhuthun yn hanfodol. Yn amgylchynu'r iard mae tri gofod arddangos, stiwdios gwneuthurwyr, oriel fanwerthu a chaffi prysur. Neu ewch i Oriel Dory yn Llangollen i weld arddangosfa "Ein Tirlun Darluniadwy" yn yr hydref 2023.

Wedi'ch ysbrydoli, rhowch gynnig arni yn y Ganolfan Sgiliau Coetir ym Modfari neu yn nistawrwydd Coed Wernog yn y bryniau uwchben Rhuthun. Mae byddin o grefftwyr yn darparu cyrsiau mewn cerameg, gemwaith, gofal croen botanegol, gwaith lledr a chreu printiau leino.

**www.rhylpavilion.co.uk**
**www.canolfangrefftrhuthun.org.uk**
**www.dorygallery.com**

# llwybrau tref a dinas

**Mae Sir Ddinbych yn adnabyddus oherwydd yr ardaloedd o gefn gwlad anhygoel a thraethau hardd. Ond peidiwch â chael eich hudo gan yr awyr agored yn llwyr nes eich bod yn anghofio am ein trefi marchnad bywiog a threfi glan y môr enwog.**

**Maent yn llawn siopau annibynnol a lleoedd gwych i fwyta ac yfed ynddynt. Dilyn ein llwybrau tref yw'r ffordd orau o'u harchwilio. Mae saith ohonynt i gyd – un ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos, a llwybr dinas o amgylch un o ddinasoedd lleiaf a'r mwyaf hanesyddol ym Mhrydain.**





*Castell Dinbych*



*Pont y Ddraig, Y Rhyl*

Mae'r teithiau cerdded yn hawdd ond mae llawer i'w weld, felly bydd angen o leiaf hanner diwrnod ar gyfer pob un. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

**Y Rhyl**

Cyrchfan glan y môr Prydeinig traddodiadol gydag atyniadau cyfoes fel parc dŵr SC2, harbwr hanesyddol a thraeth euraidd hyfryd.

**Prestatyn**

Mae croeso i gerddwyr yn y dref ble ceir Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa – peidiwch â cholli Canolfan y Nova ar y promenâd.



*Llangollen*

### Rhuddlan

Mae'r llwybr cylchol yn teithio ar draws 1,000 o flynyddoedd o hanes cythryblus gan gynnwys bryn Normanaidd, eglwys ganoloesol ac un o gestyll mwyaf Cymru.

### Llanelwy

Mae cadeirlan hynafol leiaf Prydain mewn lleoliad arwyddocaol ar Stryd Fawr y ddinas gyda phoblogaeth o ddim ond 4,000. Ond mae Llanelwy wedi bod â rhan bwysig yn niwylliant Cymru ers y chweched ganrif.

### Dinbych

Crwydrwch o amgylch castell Edward I, olion eglwys Elisabethaidd Robert Dudley a thai mawr Stryd y Dyffryn – mae mwy o adeiladau rhestredig nag unrhyw dref arall yng Nghymru.

### Rhuthun

Mae tref brysur Rhuthun yn lleoliad hynod arbennig. Mae adeiladau eiconig i'w gweld yn y nenlinell wrth grwydro: murfylchau Castell Rhuthun, tŵr Carchar Rhuthun, tŵr Eglwys Sant Pedr.

### Corwen

Cartref cyndeidiol arwr mwyaf Cymru, Owain Glyndŵr, a'ch cyrchfan olaf ar daith 10 milltir Rheilffordd Llangollen drwy Ddyffryn Dyfrdwy.

### Llangollen

Un o gyrchfannau mewndirol mwyaf poblogaidd Cymru a chanolfan antur awyr agored – gyda chamlas a glannau afon sydd mor drawiadol maent yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd.

**Casglwch ein cyfres o daflenni am y llwybrau neu mae modd eu lawrlwytho ar www.gogledddwyraincymru.cymru**



# ffordd y gogledd

**Mae Ffordd y Gogledd yn sicr yn lwybr. Mae'n dilyn llwybr masnachu hynafol am 75 milltir ar hyd arfordir Gogledd Cymru i Ynys Môn. Ond mae hefyd yn syniad.**

**Ac mae'r syniad yn un syml: mynd ar lwybrau sydd ychydig mwy diarffordd. Archwilio, mynd yn igam-ogam, creu cysylltiadau. Fel arall efallai y byddwch yn methu uchafbwynt eich ymweliad.**

*Eglwys Gadeiriol Llanelwy*

Mae cysylltiadau gwych yn Sir Ddinbych, gyda rheilffordd ar hyd yr arfordir o Gaer i Gaergybi a phrif wythïen yr A55 yn mynd drwy'r sir. Ond mae'n hawdd ein methu os ydych chi'n canolbwyntio ar yr atyniadau twristaidd sydd ymhellach i'r gorllewin.

Felly arafwch. Ewch oddi ar y trên yng ngorsaf y Rhyl neu ym Mhrestatyn i archwilio'r cyrchfannau glan y môr hardd hyn a phentrefi hanesyddol fel Dyserth a Gallt Melyd. Pan welwch arwyddion brown ar yr A55 yn eich cyfeirio at Ddyffryn Clwyd, ewch amdani. Fe fydd werth yr ymdrech.

Mae'r Dyffryn yn cynnig golygfeydd trawiadol o'r bryniau cyfagos wrth fynd tuag at Rhuddlan ger yr arfordir, drwy ddinas hynafol Llanelwy i Ddinbych a Rhuthun cyn cyrraedd tarddiad yr Afon Clwyd.

Mae'r dolydd braf a'r trefi marchnad prysur yn cynnig natur bywyd gwahanol – blas gwirioneddol o Gymru. Heb sôn am dri atyniad treftadaeth anhygoel, oll gydag arwyddion penodol ac yn barod i greu llwybr yn eu hawl eu hunain.



# Llwybr Dyffryn Clwyd

### Castell Rhuddlan

Rhan o "gylch haearn" o gestyll a adeiladwyd gan Edward I yn y 13eg ganrif, un o'r caerau mwyaf yng Nghymru. Mae'r olygfa o'r castell, yr eglwys a'r bont gyda'i gilydd ar lannau'r Afon Clwyd mor eiconig nes bod JMW Turner wedi'i pheintio.

**www.cadw.llyw.cymru**

### Eglwys Gadeiriol Llanelwy

Yn ddim ond 182 troedfedd o hyd a 68 troedfedd o led – ond yn bresenoldeb anhygoel yn niwylliant Cymru. Dyma gartref y Beibl Cymraeg cyntaf erioed, a gyhoeddwyd ym 1588, gyda chopi gwreiddiol i'w weld yn yr eglwys gadeiriol a chofeb i'r cyfieithwyr ar lawnt yr eglwys gadeiriol.

**www.stasaphcathedral.wales**

### Castell Dinbych a Muriau'r Dref

Mae castell Edward I a'i borthdy â thri thŵr yn darparu golygfeydd trawiadol o Ddyffryn Clwyd. Beth am fenthyg goriad i gael taith breifat o amgylch muriau hynafol y dref, ymysg y mwyaf cyflawn ym Mhrydain.

**www.cadw.llyw.cymru**

# llwybrau llesol

**Mae ein harfordir hyfryd, bryniau trawiadol ac afonydd byrlymus yno i'w mwynhau. Ond does dim rhaid i chi fentro i'r awyr agored i brofi antur llawn adrenalin.**

**Ydych chi'n ddigon dewr, er enghraifft, i fentro lawr yr Anaconda? Dyma'r llithren gyflymaf ym mharc dŵr anhygoel SC2 ar arfordir y Rhyl, sydd hefyd yn cynnwys cwrs antur TAG Ninja i brofi eich sgiliau, ffitrwydd a dewrder. Dyma ychydig o syniadau eraill:**

Watersports

### Chwaraeon dŵr



Mae canolfan hyfforddi a chaffi Pro Kitesurfing ger traeth hyfryd y Rhyl hefyd. Mae Llangollen yn gyrchfan ar gyfer rafftio afonydd, caiacio a phadlfyrddio tra bo Llyn Brenig yn lleoliad perffaith i ddysgu hwylio.

### Seiclo a beicio mynydd

Mae beicio mynydd yn ymwneud â golygfeydd panoramig a disgynfeydd trawiadol. Yn y 350 erw yng Nghoed Llandegla mae rhwydwaith o lwybrau pwrpasol yn cynnwys pob gradd o rai gwyrdd i rai du. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 5 yn rhedeg ar hyd y promenâd rhwng y Rhyl a Phrestatyn.

### Llwybrau natur a bywyd gwyllt

Dewch i glywed côr y bore bach, ymuno â thaith ystlumod, chwilio am greaduriaid bychain. Cerdded gyda mulod bychain ym Moel Famau, mynd ar reid hysgi gyda Mynydd Sleddog Adventures – neu fynd â'ch ci eich hun ar antur ar draethau'r gaeaf.

### Chwilota a byw yn y gwyllt

Mae'r lleoliad glampio The Forge yng Nghorwen yn cynnig popeth, o wyliau ioga a lles i redeg llwybrau, nofio gwyllt a phladuro hyd yn oed. Mae Original Outdoors yn Rhuthun yn darparu hyfforddiant byw yn y gwyllt, llywio a goroesi – a chwrs un diwrnod yn chwilota a chanfod bwyd gwyllt.



SC2, Y Rhyl

## Byddwch yn Anturiwr Craff

Cyn mentro i'r awyr agored, gofynnwch dri chwestiwn allweddol:

Oes gen i'r offer cywir?

Ydw i'n gwybod sut fydd y tywydd?

Ydw i'n ffyddiog bod gen i'r wybodaeth a sgiliau ar gyfer y diwrnod?

Bydd gwefan Adventure Smart yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi. Lle bynnag yr ewch, cofiwch ddilyn y Cod Cefn Gwlad gyda'r mantra Parchwch – Diogelwch – Mwynhewch.

www.adventuresmart.uk



**www.sc2rhyl.co.uk**
**www.ridenorthwales.co.uk**
**www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk**

*The Forge, Corwen*


Carchar Rhuthun

**Fel petai cael eu cloi mewn cell, eu gweithio'n galed ar beiriant rhedeg a'u gorfodi i fwyta llymru yn ddigon drwg, roedd carcharorion Carchar Rhuthun ym 1870au yn wynebu cosb waeth na hynny – eu cludo i Awstralia.**

# Llwybrau treftadaeth

Mae cell newydd, a ail-grewyd fel corff llong, yn adrodd hanes eu taith hir i'r Byd Newydd. Mae islawr y carchar wedi'i adfer i ddatgelu'r gwaith brics gwreiddiol anhygoel – ac mae cyfle i brofi ymarferion carchar Fictoraidd.

Mae'n rhan o waith adnewyddu am ddwy flynedd sy'n golygu bod hyd yn oed mwy o atmosffer yn yr unig garchar Pentonville ym Mhrydain sydd ar agor i'r cyhoedd. Gallwch lunio eich llwybr eich hun i'r gorffennol drwy gysylltu gyda mwy o drysorau hanesyddol.

Ni fydd yn rhaid i chi fynd yn bell i gyrraedd un o'r tai hynaf yng Nghymru sydd â ffrâm bren. Mae Nantclwyd y Dre a'i stafelloedd moethus sydd wedi eu hail-greu hefyd yn Rhuthun. Ychydig ymhellach i ffwrdd gallwch grwydro ar hyd Pier Edwardaidd dychmygol yn Amgueddfa'r Rhyl neu archwilio gweddillion Baddondy Rhufeinig ym Mhrestatyn.

Fe welwch abaty canoloesol Glyn y Groes ychydig y tu allan i Llangollen a Chapel addurnedig Rug ac Eglwys dawel Llangar ger Corwen. Ac ym Mhlas Newydd gallwch dalu teyrnged i Ferched Llangollen, fel y mae Wordsworth, Wellington ac Anne Lister sy'n enwog am "Gentleman Jack" wedi'i wneud o'ch blaen.

**www.gogleddddwyraincymru.cymru**
**www.cadw.llyw.cymru**



*Nantclwyd y Dre, Rhuthun*





*Capel y Rug, Corwen*



*Plas Newydd, Llangollen*



**Wrth ddilyn llwybr, nid mynd o A i B sy'n bwysig. Sut yr ydych yn mynd o un lle i'r llall sydd bwysicaf. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn yn ysgafn.**

# Llwybrau heb geir



Nid peidio â phacio'r siwmper ychwanegol yr ydym yn ei olygu. Rydym yn sôn am gyffyrddiad ysgafn ar yr amgylchedd. Wrth gyrraedd Sir Ddinbych ac wrth deithio o amgylch y sir, mae'n debyg y bydd dewis eco-gyfeillgar ar gael.

Felly ystyriwch adael y car gartref. Mae'n debyg y byddwch yn mwynhau eich diwrnod yn fwy. Mae'n gyfle i ymlacio a mwynhau'r olygfa heb straen ychwanegol o ddelio â thraffig a pharcio.

Mae modd cymysgu dulliau teithio – mynd ar gwch cul tua Rhaeadr y Bedol ger Llangollen a cherdded yn ôl ar hyd llwybr y gamlas, er enghraifft, neu ddal bws yn ôl ar ôl crwydro traws gwlad.

Dyma sut y gallwch sicrhau bod eich llwybr yn Sir Ddinbych yn gwbl gynaliadwy:

**Ar fws**

Crwydrwch yn hawdd heb boeni pa fws i'w ddal. Mae tocyn 1bws yn rhoi mynediad at 27 o weithredwyr bysiau a bron i 200 o deithiau bws ar draws Gogledd Cymru.

Rhowch gynnig ar y gwasanaeth bws Fflecsi sy'n teithio o amgylch trefi a phentrefi o amgylch Rhuthun a Dinbych. Mae'r bysiau hyn sy'n cael eu pweru gan fatris yn ymateb i'r galw yn unig: lawrlwythwch yr ap neu ffoniwch 0300 234 0300 i archebu taith.

Mae Bws Darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy'n cysylltu Llangollen a'r pentrefi cyfagos gydag atyniadau eiconig gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte, Rhaeadr y Bedol, Abaty Glyn y Groes, Plas Newydd a Bwlch yr Oernant. Mae'n rhedeg ar ddydd Sadwrn yn ystod tymor twristiaid 2023.

**www.sirddinbych.gov.uk**
**www.cymraeg.traveline.cymru**

## Ar drên

Mae Sir Ddinbych yn cael ei wasanaethu gan rwydwaith rheilffyrdd mawr, gyda chysylltiadau o Lundain, Caergybi, Caer a Manceinion. Y gorsafoedd trên agosaf yw'r Rhyl a Phrestatyn ar brif reilffordd arfordir Gogledd Cymru a'r Waun ar reilffordd Caer i'r Amwythig.

Gwiriwch wefan Trafnidiaeth Cymru i gael manylion Tocynnau Rover neu Ranger yn caniatáu teithio di-derfyn ar rwydwaith rheilffyrdd Cymru.

**www.trc.cymru**
**www.nationalrail.co.uk**

## Ar gamlas

O Langollen, gallwch fynd ar daith ar gwch hudol yn cael ei dynnu gan geffyl tuag at Rhaeadr y Bedol. Ond bydd angen modur, a hoffter o uchder, os ydych awydd hwylio dros yr "afon yn yr awyr" ar Dyfrbont Pontcysyllte.

**www.horsedrawnboats.co.uk**



## Ar feic ac e-feic

Mae gwefan Beicio Gogledd Cymru yn cynnwys canllaw cyflawn i feicio a beicio mynydd yn y rhanbarth ac mae'n cynnwys mapiau a chardiau llwybrau y mae modd eu lawrlwytho, a rhestrau o siopau beics, digwyddiadau mawr a lleoedd i aros.

Ond nid yw pawb yn dymuno defnyddio cymaint o egni. Mae beiciau trydan yn ffordd wych o fwynhau cefn gwlad heb y straen – gan ddefnyddio mwy o bŵer ar gyfer bryniau neu flaenwyntoedd. Mae modd benthyg un gan Llan E-Bikes yn Henllan, Electric Dragon Cycles yng Nghorwen neu'r fenter gymunedol Drosi Bikes yn Llangollen. Mae e-feiciau i'w llogi yn Oneplanet Adventure yn Llandegla, yr Hwb Beic yn Harbwr y Rhyl a chanolfan ymwelwyr Llyn Brenig.


**www.ridenorthwales.co.uk**

## Mewn cerbyd trydan

Eisoes yn berchen ar gerbyd heb allyriadau? Mae pwyntiau gwefru cyflym mewn wyth maes parcio cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych gan gynnwys Dinbych, Llanelwy, Llangollen, Rhuthun, Prestatyn a'r Rhyl. Mae Siop Fferm Rhug ger Corwen wedi cyflwyno gorsaf gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan sydd ar gael 24 awr y dydd, ac mae modd cael mynediad iddi trwy ap ffôn clyfar.



LERPWL
LIVERPOOL
PENBEDW
BIRKENHEAD
Mersey / Mersey
M53
A41
Twyni Gronant Dunes
Nova Prestatyn
SC2 Y Rhyl
Harbwr y Rhyl
Rhyl harbour
PRESTATYN
Gronant
Y RHYL
Gallt Melyd
Meliden
Dyserth
Rhaeadr
Dyserth
Waterfall
RHUDDLAN
BAE COLWYN
COLWYN BAY
ABERGELE
Llyn Morol
Marine Lake
Bodelwyddan
A55
LLANELWY
ST ASAPH
Rhuallt
Castell
Rhuddlan
Castle
A548
Dyfrdwy / Dee
TREFFYNNON
HOLYWELL
Y FFLINT
FLINT
A550
Eglwys Gadeiriol Llanelwy
St Asaph Cathedral
Trefnant
Bodfari
A541
Dyffryn Clwyd
Bryniau Clwyd
CEI CONNAH
CONNAH'S QUAY
A494
Henllan
A525
DINBYCH
DENBIGH
Castell Dinbych a Muriau'r Dref
Denbigh Castle & Town Walls
Llandyrnog
Parc Gwledig
Moel Famau
Country Park
YR WYDDGRUG
MOLD
Cadole
A55
A543
Pentre
Llanrhaeadr
Vale of Clwyd
Clwydian Range
Canolfan Grefft
Rhuthun
Ruthin Craft Centre
A494
Parc Gwledig
Loggerheads
Country Park
Nantglyn
SIR DDINBYCH
DENBIGHSHIRE
Llanferres
Rhewl
Llyn
Bran
Llanbedr
Dyffryn Clwyd
Eryrys
Cyffylliog
Llanfwrog
RHUTHUN
RUTHIN




Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council